Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# COVID-19

## CYNGOR AMDDIFFYN

### I fusnesau wrth ddychwelyd i'r gwaith

Gan eich bodo chi'n ystyried ail-agor eich busnes mae nifer o faterion diogelwch Tân allweddol y dylech eu hystyried.

Bwriad y daflen hon yw darparu cymorth defnyddiol.

**www.decymru-tan.gov.uk**

## Asesiadau Risg Tân

Ar ôl i chi ddychwelyd i'r gwaith, efallai y bydd angen adolygu eich asesiad risgiau tân er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r ffordd y mae eich busnes yn gweithredu erbyn hyn. Dylid ystyried newidiadau fel arferion gwaith, lefelau stoc, newidiadau a wnaed i'r safle a niferoedd staff. Mae'n hanfodol bod asesiadau'n cael eu cynnal a'u hadolygu pan fo newidiadau sylweddol mewn ffyrdd o weithio, prosesau neu gynllun yr adeilad. Gall hyn gynnwys cadw drysau tân ar agor gyda dyfeisiau anaddas, ni chaniateir hyn.

## Llwybrau ddianc

Sicrhewch fod eich llwybrau dianc yn parhau i fod ar gael ac yn agor yn gywir - cofiwch, efallai nad ydynt yn gweithio'n iawn gan nad ydynt wedi cael eu defnyddio ers sbel. Os ydych yn rhannu'r llwybr dianc cofiwch na fydd y busnesau eraill hynny yn agor eto o bosibl. Dylid cefnogi hyn gydag arwyddion a goleuadau dianc digonol er mwyn nodi'r llwybrau dianc y dylid eu defnyddio os bydd tân.

## Llosgi Bwriadol

Oherwydd y cynnydd posibl o ran stoc a'r cyfnod cau, gallai maint y sbwriel rydych chi'n ei gynhyrchu gynyddu. Dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r sbwriel hwn gan fod y sbwriel sydd wedi'i gronni y tu allan i'r adeilad yn darged posibl ar gyfer llosgi bwriadol a allai niweidio'ch busnes.

## Hyfforddiant

Lle mae niferoedd staff wedi newid neu lle mae staff newydd yn cael eu cyflogi, rhaid i fusnesau sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu hyfforddiant priodol i staff. Os nad ydych wedi dilyn hyfforddiant staff ers cryn amser, wrth ddychwelyd, dylid gwneud yn siwr bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o dân. Os nad yw'r bobl hynny sydd â thasgau penodol wedi dychwelyd i'r gwaith, sicrhewch fod staff eraill sydd wedi cael hyfforddiant addas ar gael. Mae'n rhaid i chi ystyried anghenion a diogelwch gweithwyr unigol.

## Cynnal Mesurau Diogelwch Tân

Tra buoch chi ar gau, ydych chi wedi cynnal a chadw nodweddion diogelwch tân eich safle, h.y. larwm tân, diffoddydd tân a goleuadau argyfwng? Mae cynnal a chadw amserol yn hanfodol i ddiogelwch eich busnes a'r rhai sy'n defnyddio'r safle.

Os bydd unrhyw ymholiadau pellach gyda chi ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar **www.southwales-fire.gov.uk.gov.uk** a chwiliwch am Ddiogelwch Tân Busnes.

Fel arall mae croeso i chi gysylltu â ni ar:
**01443 232716**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service